

gan gynnwys bwletin
Cymdeithas Gwaith Maes "Llygad y dydd"



Hwyaden ddanheddog, Llanfairfechan, Chwefror 1af. Fe welwch ystyr enw Cymraeg yr aderyn yma. Gelwir yr adar yma yn *sawbills* yn Saesneg. Dyma ddau arall o'r teulu : **hwyaden frongoch** a **lleian wen**. Alun Williams



Hwyaden ddanheddog yn plymio ac yn dangos fel mae o'n codi o'r dŵr gyntaf Karen Williams

Roedd yr hwyaden ddanheddog yn **aderyn prin** ym Mhrydain yn y ganrif ddiwethaf:

EARLY in February 1919 Mr. A. W. Williams Wynn shot a female Goosander (Mergus merganser) at Meifod, near Welshpool; on March 5th his keeper shot a fine adult male at the same place, the only example in this state recorded in Montgomeryshire, where the species is rare.

British Birds Mai 1919

Gwersi Cymraeg yn porthi Llen Natur

Mae gwersi Cymraeg yn nhref Cairns, Awstralia, yn dwyn ffrwyth da iawn i Llên Natur. Meddai Peter Edwards y tiwtor: “ Fe wnaeth rhai o’r aelodau baratoi cyflwyniadau ‘dangos a dweud’ a dyma un ohonyn nhw, gan Sue Edwards”

Peter Edwards

Y daeargi a’r ballasg

“Mae gen i lun o ddaeargi tarw pendew. Mae e wedi cwrdd â ballasg ac wedi ymosod arno yn ddi-baid, er iddo gael ei orchuddio gan bigau dros ei ben, ei glustiau, ei wddf a’i gorff.

Wnaeth e ddim cwyno na chrio - wnaeth e ddim byd ond sefyll yno o’u blaen nhw yn ddistaw. Doedd neb yn credu beth welon nhw, ac yna fe ddechreuodd pawb chwerthin yn braf. Treuliodd perchnogion y ci ddeuddydd yn tynnu’r drain i gyd allan o’r ci twp, a chysgodd y druan am ddiwrnod wedyn.

Sue Edwards

Ychwanegodd Peter, “cafodd Sue y llun a’r hanes gan ffrindiau ei brawd pan oedd e yn America”:



Gwylan y Gogledd



Heliwr arswydus y gogledd; dyma damaid blasus i’r wylan. **Carfil bach** yw’r ysglyfaeth, **gwylan y gogledd** yw’r ysglyfaethwr (Svalbard, Gorffennaf 2013)

Gwylan gweddol reolaidd i arfordir Cymru, mwy o ran maint a mwy swmpus i’w gymharu gyda gwylan benwaig, dim du ar yr adain (saeth melyn), Mae adar ifanc yn liw bisged neu hufen. Aderyn tebyg yw gwylan yr arctig ond mae gwylan y gogledd yn fwy o faint a byddaf yn meddwl ei bod gyda edrychiad brwnt, pig mwy a phen mwy sgwar, hyn yn amlwg yn y llun uchod.

Alun Williams

Cysylltiadau mor rhwng Llydaw a Chymru



Mae Jean-Pierre Thomin, cyn faer tref Landernau, a siaradwr Llydaweg a Chymraeg, wedi gwneud ei ddoethuriaeth ar gysylltiadau tref Landernau ar byd. Dyma’r hyn a ddywedodd am y cysylltiadau â

Chymru:


Le charbon

La Bretagne est pauvre en charbon. Quelques petites mines existent dans la région nantaise, notamment à Montrelais. Il en sort en faible quantité un minerai de médiocre qualité. Mignot de Montigny observe en 1752 : « J’ai vu décharger au port de Landerneau une barque portant deux cent barriques de charbon d’Angleterre, tiré du país de Galles. [...]

Ce charbon est à meilleur marché que celui d’Ingrande proportion gardée »

Glo: Mae Llydaw yn dlawd o lo. Ychydig o byllau bach yn unig yn ardal Naoned (Nantes), yn benodol o gwmpas Montrelais. Yn y fan honno codir cyfaint isel o fwyn diddim-didda. Sylwodd Mignot de Montigny yn 1752: «Gwelais ddadlwytho ym mhorthladd Landerne llong yn cludo can casgen o lo o Loegr, wedi ei gymryd o Gymru. Mae’r glo hwn yn rhatach nag....

Cewch fwy o wybodaeth am waith Jean-Pierre yma a



thrwyr’r **Golygydd**. Dyma boster diweddar yn hysbysebu cyflwyniad gan Jean-Pierre yn y Llydaweg:

Olewydd môr



I saw these on the beach of Marzamemi on the south coast of Sicily last May. Apparently, the plant is called *posidonia*.

Gerard Guegen

Mwy ym [Mwletin 108](#).


Zostera a *posidonia* sydd yn creu peli môr ym Môr y Canoldir. *Posidonia oceanica* - *posidonia* ar ôl y Duw Poseidon. *Neptune grass* ydi'r enw Saesneg arno (Duw y môr yng Ngroeg a Rhufain). Planhigyn tebyg i wellt y gamlas *Zostera*, ond

Sion Roberts



y chydig yn fwy/hirach.

Mentyll cochion ym mis Ionawr



Llanfairfechan, 31 Ionawr 2017: Anodd iawn yw credu fod y creadur bach yma wedi cael yr enw Iar Fach yr Haf, pan welwyd ar ddiwrnod dwytha o Fis Ionawr ar y goeden hon yn Llanfairfechan.

Harold Mansel Jones
(diolch i Galwad Cynnar)

Dyma'r llun "ffenolegol" perffaith gan Harold - delwedd o'r glöyn ar y geirosen aeaf (ni fyddai'n bosibl i'r llun hwn gael ei dynnu llawer hwyrach). Dyma ddau gofnod arall o'r mis Ionawr aeth heibio:

Bangor, 25 Ionawr 2017: Gwelais '*red admiral*' yn hedfan yn hapus yn yr ardd pnawn ma [25 Ionawr 2017]. Nid wyf yn cofio gweld y fath beth ynghanol Ionawr o'r blaen - ydio'n anarferol iawn? Gareth Wyn Jones

12 Ion 2017, Waunfawr: ... wedi gweld mantell goch wedi ei gwasgu ar y lon ger Maes Gwynedd. Gill Brown

Dyna'r unig dri chofnod ohonynt ym mis Ionawr yn y Twyddiadur. Gaeafgysgwyr (a mewnfudwyr nes ymlaen yn y flwyddyn) ydyn nhw felly yn ymateb yn syth i dywydd cynnes (nid ei bod hi'n arbennig o gynnes ar hyn o bryd). Gwiriais Dywyddiadur Llên Natur (104,000+ o gofnodion) ond dim un cofnod Ionawr arall yn ystod y 300 mlynedd ddiwethaf. Meddai John Harold: Diddorol - disgwyl mwy o gofnodion fel hyn dwi'n amau. Yn arfordir de loegr maent yn goroesi'r gaeaf yn aml dyddiau 'ma am wn i - pan o'n i'n blentyn dim ond mewnfudwyr blynyddol roeddent. Wedi gweld nhw fy hun ym Mis Chwefror.

Gol

Mwyalchen y Mynydd, Aberllefenni 27 Ionawr



Tra'n bwyta fy mrecwast bore heddiw (Gwener 27 Ion 2017) gwelais fod deryn du (mwyalchen) wedi dod i fwyta at y bwrdd adar, ond pan gododd y deryn ei ben roedd ganddo 'fib' gwyn ar ei frest. Ni chefais gyfle i sylwi, mwy na tynnu llun, achos daeth y deryn du heibio a'i orfodi oddi yno.

Sefodd am chydig ar ben y gamfa i drio dod nôl, lle gwelais eto y frest/gwar gwyn, ond daliodd y deryn du i ddiogelu ei safle ar y bwrdd adar.


Rwyf wedi edrych fyny ac o beth wela I y fwyalchen Fynydd (*Ring ouzel*) ydio. Eto nid yw I fod yma tan mis Mawrth o leiaf yn ôl y llyfrau. Y cwestion ydy, alla'i fod yn gweld pethau!?!
Nia Edwards

Ar ôl trafodaeth fanwl rydym yn ffyddiog mai mwyalchen y mynydd yn wir ydoedd. Cysylltwch os oes cofnodion gaeaf eraill gennych eleni. Cafwyd rhai ym [mis Ionawr](#) yn 2002 (Nantcol, Eifi Morgan), 2015 (Nant Ffrancon), ac yn olaf gan y naturiaethwr EHT Bible yn 1945:

RING-OUZELS IN MERIONETHSHIRE IN WINTER.

ON January 28th, 1945, when very wintry conditions prevailed, my wife and I watched a male Ring-Ouzel (Turdus torquatus), feeding on the small hips of a rambler rose in a roadside garden at Aberdovey. The light was good, and I was able to see all the plumage markings and satisfy myself that it was not a pied Blackbird—which I confess I at first thought it was. The bird was within fifteen yards range, A Ring-Ouzel was also seen by Dr. Hugh Wright on the same day about a mile from where I saw mine, and another was picked up dead at Aberdovey on January 26th and identified by a reliable informant. These observations suggest that more Ring-Ouzels may winter in this country than is generally thought.
E. H. T. Bible

Rhyfeddodau Google Earth




I Googled Colonsay Whale and found the creator's web site: <http://www.julianmeredith.co.uk/artworks/6/colonsay> He's created it on a raised beach.
Stephen Roddick

Cofiwch os ydych yn darllen hwn yn y fersiwn bapur mae cymaint mwy i gael trwy'r dolenni coch yn y fersiwn ar-lein

Dyfodiad y gwanwyn... hyd yma

DYFODIAD Y GWANWYN: crynhoad y tymheredd (TSum), Llys Awel, Waunfawr



Dyma batrwm tymheredd crynhoadol y gwanwyn (TSum) hyd yma (mis Ionawr yn unig) yn y Waunfawr. Mi gofiwch efallai gwanwyn hwyr iawn y llynedd (Bwletin 98, t.3): mae'r llinell melyn yn dangos ei ddechreuad oer iawn. Roedd 2013 yn debyg ond cafodd y ddaear gyfle i gynhesu tan yr 8 Ionawr. Mae'r gwanwyn eleni (du) yn dilyn y cyfartaledd - hyd yma o leiaf.

Diolch i HHJ am gadw a rhannu'r cofnodion ers 1995

Barcud!



Gwelais hwn tra'n cerdded llwybr yr arfordir o Lanidan i Foel y Don [Môn] (Chwefror 9, 2017). Branwen Leisa

Ar ei ffordd i ble sgwn i?

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd (Rhif Elusen: 1126027)

Mae Prosiect Llên Natur ar Facebook a Twitter.
Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.co.uk.

Mae Thierry Chatel wedi creu campwaith!

Mae Thierry o'r un anian a selogion Llên Natur. Ysgrifennodd fflora gynhwysfawr yn y Llydaweg. Dywedodd Thierry yn Ffrangeg wrth gyflwyno ei fflora:

“[Cyfieithiad] Bu'n bleser pur darganfod termau Cymraeg sy'n gwbl ddealladwy i'r Llydawr: Ysgallen / Askolenn, Ysgawen / Skavenn, melyn / melen, (Cedw) du / du, lygatddu / lagad du, Troed / Troad, mawr / meur, (Llyisiau'r y) lliw / liv, -coed / koed, koad, (Rhwyddlwyn y) maes / maez, (Tegeirian) y gwŵr / ar gour, Cwccwll y mynach / Kougoul ar manach, Mwyaren ddu / Mouarenn zu, Seren y mynydd / Steredenn ar menez, Byswellt blewog / biz-gwelt-blevek, Bys y blaidd / Biz ar bleiz...”

Mae copiau o'r fflora ar gael trwy gais i'r [Golygydd](#).

Gweld sêr gefn dydd golau

Mwy (Bwl. 8 tud. 4): Roedd cred gyffredinol yn y gorffennol ei bod yn bosibl gweld sêr yng ngolau dydd o waelod simnai uchel neu siafft ffynnon ddofn. Awgrymir y deilliodd y cred hon o ddysgeidiaeth Aristotle a'i gyfoedion. Fel arfer ni ellir gweld sêr yn ystod y dydd oherwydd bod yr atmosffer yn gwasgaru golau. Mae golau wedi'i adlewyrchu o amgylchedd y gwylwr yn ychwanegu at yr effaith. Gellir tybio y byddai siafft yn dileu adlewyrchu o'r amgylchedd ac felly yn hwyluso gweld sêr. Ond ymddengys fod nifer o arbrofion gan seryddwyr wedi methu â dangos y ffenomen.

Er gwaethaf hynny, mae o leiaf un seryddwr wedi dweud efallai na fyddai'n amhosibl gweld ambell seren o waelod siafft ar ddydd pan oedd yr awyr yn anarferol o glir. Ac wrth gwrs mae'r awyr yn fwy clir, sydd yn golygu llai o wasgaru olau, ar ben mynydd nag ar lefel y môr. Efallai, felly, nad yw'n amhosibl y gwelwyd sêr yng ngolau dydd yn Chwarel Dorothea fel y disgrifiwyd.

Jackie Wilmington

Cynigiodd Jackie ambell ffynhonnell defnyddiol: Odenwald, Sten. “Can you see stars from the bottom of a well?” <http://www.astronomycafe.net/qadir/q241.html> Cyrch. 20 Jan, 2017 Hughes, David W (1983) “On Seeing Stars (especially up chimneys”. Q.J.Royal Astron. Soc., 24, 246-257.


Penglogau Gwilym Arthur



Dyma ran o gyfres o benglogau adar a gasglodd y naturiaethwr Gwilym Arthur. O graffu arnynt gellir gweld yn blaen bod yr adar môr fel y gwylog, y llurs a'r pedryn gyda sianel yn rhedeg fel ael uwchben pant y llygad (saeth melyn). Pwrpas y sianel yw cario chwaren sydd yn gwaredu halen. Nid yw'r sianel hon yn bresennol ar benglog adar y tir (saeth coch). Yr hyn sy'n ddiddorol yw'r ffaith bod y gwylannod, fel y buasech yn ei ddisgwyl efallai, hefyd yn meddu ar y sianel - gwylan fôr wedi'r cwbl!. Ond onid ydi'r wylan, erbyn hyn o leiaf, yn gymaint o aderyn y mewndir ag yw yn aderyn y glannau môr? Mae'r nodwedd yma ar ei phenglog yn dweud yn glir i ba gynefin y mae'n perthyn yn wreiddiol.

Tynnais lun y ddwy wylan hon (de) ar 10 Chwefror eleni ar y cei yng Nghaernarfon eiliadau ar ol gweld y ddau yn lleibio dwr hallt (oce-oce - mi fethais dynnu'r camera o'm poced mewn pryd!)

Duncan Brown



Y sginc a'r sarph



Sginc *Egernia whitii* (rwy'n credu) yn ei gynefin caregog yn cael ei fwyta gan Neidr Ddu Dorgoch (*Pseudechis porphyriacus*). Lleoliad: 800m uwch y môr, ochr orllewinol Mynyddoedd yr Eira, NSW, Awstralia.

Peter Edwards

Loricit amryliw



A rainbow lorikeet (*loricít amryliw*: *Trichoglossus haematodus*). We have several feijoa bushes in the garden. Some flowers get taken by pied currawongs, and king parrots take some of the fruit before it's ripe. This year rainbow lorikeets, that arrived in our suburb 3 years ago, have taken a fancy to the flowers and a possum has been paying us a visit, coming down the power lines, dancing on the roof, and going along the telephone/tv/internet wires from which it can dangle and reach down to the feijoa flowers.

John Bundock

Galw'r defaid


Mae Gwyn Edwards wedi clywed un o gymdogion yn Rhosgadfan yn galw ei ddefaid: *jac-jac-jac*. Ydi hwn yn alwad gan fugeiliaid eraill yng Nghymru?

Galwadau eraill gan ffermwyr: am foch (*gwiz-gwiz*, hen air Cymraeg am foch yw gwys ac mae'r gair yn fyw o hyd yn yr enw Caerwys .*Bwletin 16, tud 3*). (gyda llaw, y gair Llydaweg am hwch yw guis, a hoch ydi baedd! 'Sut mae ffermwyr yn galw gwartheg yn eig ardal ch?...

Y balmwydden fresych - eto



Diddorol oedd darllen ym Mwletin Chwefror 2017 am y palmwydd bresych (*Cordyline australis*). Mae'r llun a dynnwyd yn 1974 cyn i Westy Craigside Hydro gael ei ddymchwel yn dangos y rhain yn eu llawn dwf. Do fe wnaeth eira a rhew 1982 dipyn o lanast, ond fe ail dyfodd y cyfan (a mwy) ac meant yn parhau i ffynnu. Mae 'blodau' a hadau wedi ymddangos bob blwyddyn ers tro byd hyd y llynedd [2016]. Am rhyw reswm llwm iawn fu y llynedd er bod hadau 2015 wedi egino ac yn parhau i dyfu [syn dangos mae'n debyg parhad yr hadau yn y pridd o un flwyddyn i'r llall Gol.]. Anfonais lun yn 2011 o balmwydd wedi egino ar ochr y ffordd yn Llandudno. Rhyfeddol fu hi ym Montnewydd a Llandudno gweld drudwyod tua cant ohonynt ar y tro yn 'sbydu'r hadau, er bu newid arall yn 2015 gan mai mwyeilch gafodd afael ar yr hadau ym Montnewydd. Ond, yr hyn sydd yn anodd ei ddeall i mi yw pam na chafwyd ond ychydig iawn o flodau ar y palmwydd yn 2016 er bod y tywydd yn gynnes a ffafriol. Oes, mae yna ychydig o hadau wedi egino bron bob blwyddyn, ond mae rhywbeth



rhyfeddol wedi digwydd eleni [2015]. Yn ystod y pythefnos aeth heibio mae nifer fawr o hadau palmwydd wedi egino. 57 oedd y cyfrif heddiw! (Gorffennaf 6ed) Ar ol byw yn y ty yma am 35 mlynedd, ac heb weld dim tebyg o'r blaen, ydi hyn yn brawf pellach o gynhesu byd eang?

Ym Mwletin Llên Natur Chwefror 2017 mae son am *Cordyline australis* (palmwydd bresych). Yn y llun uchaf a dynnwyd ym mis Tachwedd mae'r palmwydd yn llawn o flodau a hadau. Mae hyn cyn i'r drudwyod a'r mwyeilch eu 'sbydu. Yn y llun isod a dynnwyd ar y 4ydd o Chwefror, 'does yna fawr ddim o hadau ar ol.

Gareth Pritchard

Cwpan Fasarn Nanteos

Y darn bregus hwn o bren yw'r cyfan sy'n weddill o ddesgl masarn hynafol a adnabyddir fel **Cwpan Nanteos**. Mae union darddiad y Cwpan yn ddirgelwch mawr, ond yn ôl y traddodiad credir iddo ddod o Abaty Ystrad Fflur i feddiant teulu Powell Nanteos yn



ystod Diddymiad y Mynachlogydd. Yn ôl yr hanes, bu i saith mynach Sistersaidd ddianc o'r abaty gyda'r Cwpan yn eu meddiant a chael lloches ym Mhlasty Nanteos. Pan fu farw'r olaf o'r brodyr

ymddiriedwyd y Cwpan i ofal teulu'r Poweliaid sydd wedi'i drysori a'i ddiogelu hyd heddiw.

Duncan Brown

Tarddiad gair Saesneg 'mazer': *ME maser < OFr masere, maple wood < Gmc, as in OHG masar, gnarled growth on oaks, ON mösurr, maple, akin to OHG māsa, a spot*

Cwpan fasarn (Mazer bowl): Tybed ai masarn go iawn **Acer campestre** - a fyddai dadansoddiad DNA yn gallu ateb y cwestiwn?

Mwy am storm fawr 1953

Difyr oedd gweld cyfeiriad at **Storm Fawr 1953** - storm na chafodd lawer o sylw o ystyried y ffaith mai hi oedd trychineb naturiol fwyaf Prydain. Clywais ddweud na chafodd y storm y sylw haeddiannol am nad oedd Llywodraeth Prydain ar y pryd angen newyddion 'negyddol' fel hyn yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, ac wedyn 'Gwyl Prydain' yn 1951. Hefyd, roedd coroni'r Frenhines yn nesáu! Yn ddiweddar bum yn siarad ag un a symudodd yn blentyn o Ogledd Orllewin Norfolk gyda'i deulu i Flaenau Ffestiniog yn dilyn y storm ofnadwy honno, ac yn y Blaenau y mae o byth, yn rhugl ei Gymraeg wrth gwrs, ond mae'r acen sydd ganddo yn 'wahanol' - tebyg iawn i acen trigolion ardal Wrecsam.

Ken Robinson


Dyma gofnod o'r noson honno gan y naturiaethwr Ted Ellis o Norfolk:

The winter of 1953 brought a night of devastation on a huge scale, in a flood which left its mark on the Broads flora and fauna for many years, as a salt tide crashed through the inadequate dyke walls and poured over fields and mud flats, drowning hibernating creatures and cattle alike on the night of 31st January. The calamity was repeated on other parts of the coast. Meddai Ted: "I recall the adventures of that night only too vividly: how trees were falling across the roads, how half a straw stack was blown across my car and how a hail of frozen leaves stripped from evergreen trees smote me when I stood in an exposed spot. There is still a large yew tree standing in this village which was killed by the freezing gail that night".

Stone E (1988) Ted Ellis The People's Naturalist Jarrold

Y camera ar waith

Bu cyfaill wrthi (dan drwydded) ers tro gyda'i "*trail camera*" sydd yn tanio yn otomatic wrth i anifail basio heibio i synhwyrdd. Gosododd y camera o flaen blwch nythu tylluan wen mewn adeilad fferm yng ngogledd orllewin Môn. Ni "ddaliodd" dylluan wen yn ei anelfa ond fe gafodd sawl rhywogaeth arall, sef brain coesgoch, tylluan fach ac ystlumod hirglust. Roedd y brain wedi codi nyth ar ben y blwch



Brain coesgoch (1 neu 2): ymwelodd y brain 10 weithiau pob 2-8 diwrnod. Doedd dim patrwm amser i'w hymweliadau ond yn ystod oriau golau dydd oedd cwbl.

Tylluan fach: 3 ymweliad achlysurol ar wahanol amseroedd wrth iddi oleuo yn y bore neu dywyllu'r nos

Cyfnod gaeaf 28/12/2016 - 5/2/2017

Brain coesgoch (1 neu 2): 3 ymweliad o gwmpas 1yp ar wahanol ddyddiadau, rhwng 1 a 6 niwrnod rhynddynt. Roedd y brain yn amlwg yn bysnesu o gwmpas y nyth.

Tylluan fach: 5 ymweliad, 4 rhwng 12.00 a 14.00 gyda 1 am 8yb.

Mi gewch chi ddehongli'r data yn nhermau ymddygiad y ddau aderyn!

Yr ydfran aflunaid



Ydy o/hi yn ol? Roedd ydfran gyda pig aflunaid yn yr ardd llynedd, gwelwch lun **yn yr oriel Chwefror 29**. Ai yr un aderyn neu aderyn hollol wahanol gyda phig od? Chwefror 10ed

Alun Williams

Os mai'r un aderyn ydi o mae yna well graen arni na blwyddyn yn ol!

Ai dyma wyneb Newid Hinsawdd?

Prinder llyisiau yn y siopau - **stori**

Cywiriad yn Rhifyn Chwefror

Efallai fod Bubo a'i lygaid yn hanner cau ond mae Steve yn arbennig o effro. Camgymeriad typo gennyf TG etc ddylai'r cyfeirnod grid fod. **John Grisdale**
Steve Roddick (sy'n arolygydd yr OS ym Môn - be arall!) wedi gweld teipo yn y **stori eryr-ddylluan**

Dyfrgi ar draeth Criccieth



Dyfrgi ar draeth Criccieth heddiw [31 Ionawr 2017]. Gwelwyd o ar ddwy ochr y penrhyn, y tro cyntaf gyda pysgodyn yn ei geg. Yr eilwaith cafodd ei erlid gan fran i guddio ymysg y cerrig. Angharad Harris

Y dyfrgi a'i brae



Dyfrgi, Gwarchodfa Natur Rhuddlan, Rhagfyr 23, 2016. Cyfeirnod grid: SJ 02 77 Eifion Griffiths Meddai'r pysgotwr Rhys Llewelyn: "Mae'n debyg mai roach [rhufell] yw'r pysgodyn neu falle rudd, [pysgodyn rhudd]-y ddau yn debyg".

Y Tymor aeth heibio - i ysgogi sylwadau

Hen air: "Chwefror chwyth y neidr o'i nyth" Meddai Marc Cocker (*Country Diary*): "I wonder if that was when they emerge with you. My earliest dates for local [Norfolk] grass snake and adder are March but I know the latter can be out by Jan in v mild conditions".

6 Chwefror: **Griffi llyffant** cyntaf Waunfawr (Gill Brown)

Madfall ddŵr, Crochan Llanddwyn... 5 Chwefror fe gyfron ni tua 20 o newts yn symud o gwmpas Einir Thomas

Hwyaid duon yn arddangos (Marc Huws) https://m.facebook.com/story.php?story_fbid=10155028668167884&id=552367883&_rd

Carn yr ebol: Chwefror 20, 1936 *Coltsfoot and female Hazel* (Dyddiadur EHT Bible). Dyma'r cynharaf o 18 cofnod (1905-2016). Y dyddiad cyfartalog yw 11 Mawrth (un arall yn unig, y llynedd, a welwyd ym mis Chwefror) [Atal y wasg: blodyn benywaidd cynta'r gollen eleni, cyffordd Tryfan 18 Chwefror].

Blodau benywaidd y cyll: Nododd warden Paul Williams 26 Chwefror, 2010 fel hyn: Craig y Benglog: "Yr arwydd cyntaf i mi weld eleni o flodyn benywaidd collen ar fin agor". Dyddiad cyfartalog ymddangosiad y blodau coch hyn yw 25 Chwefror (y cynharaf yn Aberdyfi yn 1929 ar 3 Chwefror [EHTB]).

Awstralia: Today [10 Chwefror] it reached 40.6°C (105°F) in Tuggeranong, where I live. Predicted to be warmer tomorrow. Tidbinbilla Nature Reserve is closed today until Monday because of very high fire danger. I was supposed to be volunteering at Tidbinbilla tomorrow, assisting visitors. I've now been asked to go to Namadgi National Park Visitors Centre. Interesting to see if many people turn up. They'll be urged to take plenty of water if they go walking and will be encouraged to do shorter, more sheltered walks. John Bundock

Y frenigen (llygad myharen)

Er Vernikenn

gan Yann-Ber-Kalloc'h

Wedi ei hysgrifennu yn nhafodiaith y Wenedeg

*Gwélet em-es un dra heb par
Ur garreg sonn ar hé diùhar,
Ha tro-ha-tro mor é konnar*

*Hag er garreg, ihuél hé 'fenn,
E oé staget doh hé hrohenn,
Bihan-bihan ur vernikenn.*

*Digabestret ha didruhé
En tonneu divent e darhé...
Med er vernikenn e zalhé.*

*Ha chetu deft er mor d'arsau,
Hag er gêh vernikenn tenau
D'er roh e oé staget atau.*

*Er vernikenn e oui krogein
'Zoh er roh é ma ar é gein,
Tra ne hello hé distagein...*

*Hama, n'en-des nitra gwirroh :
El er vernikenn ar er roh,
Me halon zo staget dohoh*

Ewch yma i glywed Dominig Kervegant yn darllen y gerdd

Yann-Ber-Kalloc'h - Hedd Wyn Llydewig?

Ganwyd Kalloc'h yn 1888 ar **Ile de Groix**, ynys oddiar L'Orient. Pedwerydd plentyn o deulu o bysgotwyr ydoedd. Dangosodd gariad cynnar tuag at y byd Llydewig a'r iaith. Graddiodd yn 1905 gan arbenigo yng ngramadeg ei dafodiaith arbennig, y Wenedeg. Ar 10 Ebrill 1917 yn ffosydd Y Somme tewodd ei lais unigryw am byth.

Ysgrifennodd Yan ym mis Ionawr 1917 (tri mis cyn ei dranc): *en-sklas eo an amzer àr dalbenn ar Somme e Genver 1917. 'Met 30 derez e ra, kleriñ a ra freg ar soudarded pa zizouront, ha skorniñ a ra ar c'hwez àr gein o roñsed.*

Mae'r tywydd yn ddifrifol oer ar linell ffrynt y Somme. Mae hi'n 30 gradd o dan y rhewbwynt. Mae dŵr (pî-pî) y dynion yn rhewi pan maent yn pasio dŵr, mae chwys ceffylau yn rhewi ar eu cefnau.

Dominig Kervegant

BRENIGEN O'r geiriadur:


1707 AB 5a, Brennik, A Limpet; in Cardiganshire, Brennik.

18g. L. Morris: LW 106, *Welch Brennik = English Limpins = the shellfish* llygad y meheryn.

1753 TR, Brennik, *a shell-fish called a limpet.*

1793 P, Brenig, s. m. ... *The limpet, a sort of shell-fish; the same as llygaid myheryn.*

1855 Traeth xi. 74, bydd y meddylddrych yma yn glŷnu wrth yr enaid fel y brenig (*limpets*) wrth y graig. **GPC**



Gwelais rywbeth na welais o'r blaen
Carreg gydnherth - ac o'i chwmpas
Y môr aflonydd a gwyllt.

Y garreg, a'i phen yn dalog -
Ar ei hystlys gwisgai
Frenigen fechan fach.

Penrhydd a heb drugaredd
Hyrddiai'r tonnau
Ond cydio wnaï'r frenigen.

Tawelodd y môr o'r diwedd
A glynu o hyd a wnaï'r
Gragen fregus druan.

Gŵyr y frenigen o'r gorau
Nad oes dim a all ei gwa-
hanu
Oddiwrt y graig sy'n rhoi
iddi ymgeledd...

Ond dyma ni, does dim sy'n
amlycach:
Fel y frenigen ar ei chraig,
Rwyt tithau a'm calon yn un

